


Cyfrineiriau



Dim ond hyn a hyn y gall cyfrineiriau wneud, hyd yn oed pan maen nhw wedi'u gweithredu'n gywir; mae cyfrineiriau wedi'u cyfyngu o ran helpu i atal mynediad heb awdurdod. Os yw ymosodwr yn darganfod neu'n dyfalu'ch cyfrinair, mae'n medru'ch dynwared!

Ychydig eiriau am Gyfrineiriau

1. **Diflas** – Mae pawb yn gwybod eu bod nhw'n boen a does neb eisiau clywed mwy amdany'n nhw.
2. **Hanfodol** – Mae'n ymddangos fel pe na bai unrhyw beth yn gweithio heb gyfrinair bellach.
3. **Allwedd i'ch drws ffrynt digidol** – Dyna sut ddylech chi drin eich cyfrinair – os ydych chi'n defnyddio cyfrinair syml ac yn ei ddefnyddio ar gyfer sawl cyfrif – mae hynny fel cael yr un allwedd ar gyfer popeth sydd gyda chi yn y byd go iawn – ac os fyddwch chi'n colli'r allwedd hwnnw, neu mae rhywun yn dod o hyd iddo ac yn ei ddefnyddio – mae ganddo fynediad i'ch holl ddrysau a dreiriau. Os oes rhywun yn dyfalu'ch cyfrinair neu'n ei hacio – sawl drâr a drws digidol maen nhw'n medru agor?



4. **Beth yw'r gwaethaf a all ddigwydd?** – Gan ddefnyddio'ch cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair, gall troseddwr eich cloi chi allan o'ch bywyd ar-lein, eich dynwared, a hyd yn oed gwerthu'ch cyfrifon.

Byddwch yn seiber-graff!

Mae angen i gyfrineiriau fod yn gryf, yn ddiogel, ac yn unigryw ar gyfer pob cyfrif.

Os oes rhywun yn gwybod eich cyfrinair, neu'n ei ddyfalu, bydd ganddo fynediad i'r cyfrif ar-lein hwnnw.

Felly, os ydych chi wedi defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer mwy nag un cyfrif, mae gan y troseddwr fynediad i'r cyfrifon hynny hefyd yn awr.

"Bydd e ddim yn digwydd i fi, rwy'n byw yn ardal Dyfed-Powys, a does dim diddordeb gan droseddwr seiber ynof i".

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn cannoedd o adroddiadau bob blwyddyn am ddigwyddiadau seiber, a dim ond y rhai yr ydym yn gwybod amdanynt yw'r rheini. Mae llawer byth yn cael eu hadrodd.

- Rhifau PIN a chyfrineiriau yw'ch amddiffyniad cyntaf ar eich cyfrifiadur, dyfais symudol, apiau, cyfrifon banc ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.
- Crëwch gyfrineiriau sy'n gryf, peidiwch â'u rhannu, a defnyddiwch un gwahanol ar gyfer pob cyfrif ar-lein rhag ofn bod un neu fwy'n cael eu hacio.

Nid un cyfrinair diogel ar gyfer pob cyfrif yw'r ateb. Os ydych chi'n defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer eich holl gyfrifon, os yw'r cyfrinair hwnnw'n cael ei hacio, mae'ch holl gyfrifon yn awr mewn perygl.

Yn hytrach na chreu cyfrineiriau hir a chymhleth iawn, dewiswch dri gair ar hap. Mae enghreifftiau a ddefnyddir ar wefan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn cynnwys: 'coffitrenpysgodyn' neu 'waltincrys'.

Osgowch ddefnyddio cyfrineiriau sy'n hawdd eu dyfalu, megis 'undautri' neu enwau aelodau o'r teulu neu anifeiliaid anwes gan y bydd hyn yn eich gwneud chi'n darged hawdd ar gyfer hacwyr.



Medrwrch eu hysgrifennu'n saff a diogel - nid dyma'r datrysiaid gorau, ond mae'n well na chael un cyfrinair sy'n hawdd ei ddyfalu - os fyddwch chi'n gwneud hyn, defnyddiwch lyfr bach du yr ydych yn ei gadw'n ddiogel rhywle. Fe allech ddefnyddio dogfen Word a reolir gan gyfrinair, neu fe allech ystyried defnyddio Rheolwr Cyfrineiriau.



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Teipiwch 'Rheolwyr Cyfrineiriau' i mewn i beiriant chwilio er mwyn cael rhagor o wybodaeth, neu galwch heibio i'r gwefannau a nodir isod:

- <https://www.howtogeek.com/445274/how-safe-are-password-managers/>
- <https://www.getsafeonline.org/blog/password-managers-how-to-remember-all-your-passwords-by-remembering-only-on/>

Beth bynnag a wnewch – sicrhewch fod genych gyfrinair unigryw a chryf ar gyfer eich holl gyfrifon ar-lein. Fel yna, rydych chi'n gwneud eich hun yn darged llawer anoddach i'r troseddwr seiber a 95% yn llai tebygol o gael eich hacio yn y dyfodol.

Y tro nesaf, byddwn ni'n edrych ar **Brawf Dilysu Dau Gam** – ond tan hynny, treuliwch ychydig o amser yn edrych ar eich cyfrineiriau a rhoi trefn arnynt.

Rhywfaint o adloniant ysgafn...

Mae'n Siŵr y Dylech Newid Eich Cyfrinair! | Rhaglen Arbennig Michael McIntyre ar Netflix -

<https://www.youtube.com/watch?v=aHaBH4LqGsI>

